



Annwyl Gwsmer

Ymgynghoriad cyhoeddus lleol - Dweud eich dweud

Swyddfa Bost Clydach Vale
39 Stryd y Wern, Tonypandy, CF40 2BN

Rydym yn bwriadu symud y gangen Swyddfa'r Post uchod i leoliad newydd – Siop Clydach, 19 - 20 Heol Clydach, Tonypandy, CF40 2BD, lle caiff ei rhedeg fel un o'n canghennau lleol eu natur.

Pam ydym yn cynnig y newid hwn?

Mae'r postfeistr presennol wedi ymddiswyddo, ac ni fyddai'r adeilad ar gael i'w ddefnyddio'n Swyddfa Bost. Felly, bu'n rhaid i ni gael hyd i leoliad arall er mwyn parhau i gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r gymuned leol. Mae'n dda gennym ddweud ein bod wedi cael hyd i bostfeistr newydd a fyddai'n dal i redeg y gwasanaeth Swyddfa'r Post o'r adeilad newydd arfaethedig.

Ein blaenoriaeth yw diogelu ein gwasanaethau yn yr ardal yn yr hirdymor a byddai adleoli Swyddfa Bost Clydach Vale yn golygu y gallem gadw gwasanaeth Swyddfa'r Post i'n cwsmeriaid yn y gymuned leol.

Hoffem gael eich cymorth

Rydym nawr yn dechrau cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac mae eich adborth yn bwysig i ni oherwydd bydd yn ein helpu i wneud ein penderfyniad. Mae rhagor o fanylion am y gwasanaethau a fwriedir ac am hygyrchedd y safle yn y crynodeb o wybodaeth am y gangen yn nes ymlaen yn y ddogfen ymgynghorol hon.

Am beth yn hollol rydym yn ymgynghori?

Hoffem gael eich sylwadau ynghylch y canlynol:

- Pa mor hawdd yw cyrraedd y lleoliad newydd arfaethedig?
- A yw'n hawdd i chi fynd i mewn i'r adeilad newydd ac i symud o gwmpas y tu mewn?
- Ydych chi'n credu y gallai unrhyw faterion cymunedol eraill ddylanwadu ar neu gael eu dylanwadu gan y bwriad i symud y Swyddfa Bost?
- Pe bai'r symud yn digwydd, a oes unrhyw beth y gallem ei wneud fel ei bod yn haws i gwsmeriaid?

Mae'r newid a argymhellir i reolaeth y gangen yn benderfyniad i Swyddfa'r Post Cyf ac felly nid ydym yn chwilio am ymateb i'r agwedd hon ar y newid.

Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dechrau	Dydd Gwener 6 Hydref 2023
Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dod i ben	Dydd Gwener 17 Tachwedd 2023
Dyddiad arfaethedig	Ionawr 2024

Cafodd taflen wybodaeth ei hamgáu er mwyn rhoi rhagor o fanylion am eich cangen newydd arfaethedig. Gallwch rannu eich sylwadau am y newid arfaethedig trwy ein holiadur hawdd a hwylus ar-lein ar postofficeviews.co.uk. Wrth fynd i mewn i'r wefan, gallwch ddefnyddio'r ffwythiant chwilio i gael hyd i'r ymgynghoriad ar gyfer y gangen hon – naill ai yn ôl enw'r gangen, y cod post neu'r cod unigryw ar gyfer y gangen: **374611**

Sut i rannu'ch barn:

Hyb Ymgynghori (postofficeviews.co.uk)

comments@postoffice.co.uk

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments – D.S. Hwn yw'r cyfeiriad post llawn. Mae eitemau a anfonir drwy Freepost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd pen y daith, ac felly dylech ganiatáu digon o amser.

Eisiau rhoi eich barn yma nawr? Sganiwch yma.

Os nad oes gennych god QR ar eich ffôn, gallwch gael un yn eich siop apiau.



Mae'n dda gwybod

- Byddai cwsmeriaid yn cyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn man gwasanaeth modern sydd yn rhan o gownter y siop
- Trwy gydweithio â'r postfeistr, byddem, pe bai angen, yn addasu patrwm presennol y siop, ynghyd â'r celfi gosod a'r ffitiadau, er mwyn gwneud lle i dil y Swyddfa Bost
- Mae canran uchel o gwsmeriaid yn fodlon â changhennau lleol eu natur, ac mae llawer o gwsmeriaid yn ymweld y tu allan i'r oriau agor traddodiadol
- Byddai'r holl staff a gyflogid gan Swyddfa'r Post i weithio yn y gangen newydd yn derbyn hyfforddiant parhaus o'r safon uchaf mewn perthynas a chynhyrchion a gwasanaethau, yn ogystal â materion gweithredol a materion sy'n ymwneud â gwasanaeth
- Nawr bydd posteri a thafenni yn cael eu harddangos yn y gangen a Siop Clydach er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am yr argymhelliad a gofyn iddynt am eu sylwadau
- Bydd unrhyw wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei hystyried wrth i ni baratoi ein cynlluniau terfynol
- Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddwn yn ysgrifennu atoch eto ar ddiwedd yr ymgynghoriad i ymateb i'r prif faterion a godwyd ac i esbonio ein cynlluniau terfynol ar gyfer y gangen
- Mae'r ymgynghoriad hwn yn unol a'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Grŵp Defnyddwyr yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr Mae detholiad sy'n ymwneud ag Ymgynghori ar ddiwedd y llythyr hwn.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrdau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall y newidiadau y bwriadwn eu gwneud i Swyddfa Bost Clydach Vale. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni. Mae ein manylion cyswllt ar frig y dudalen hon.

Diolch ichi am ystyried ein

hargymhelliad.

Yr eiddoch yn gywir,

Sarah Cottrell

Sarah Cottrell
Rheolwraig Darpariaeth y Rhwydwaith
Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Cryneb o wybodaeth am Swyddfa Bost Clydach Vale

Lleoliad Presennol

39 Stryd y Wern
Tonypanyd
CF40 2BN

Lleoliad Newydd Arfaethedig

Siop Clydach
19-20 Heol Clydach
Tonypanyd
CF40 2BD

Yr oriau agor presennol

Llun – Iau	09:00 - 13:00 14:00 - 17:30
Gwen	09:00 – 13:00
Sad	09:00 – 12:00
Sul	Ar Gau

Yr oriau agor newydd arfaethedig

Llun–Gwen	09:00 - 18:00
Sad	09:00 - 14:00
Sul	Ar Gau

**Mae yna adegau pan fydd rhaid newid oriau agor cangen.
Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan
www.postoffice.co.uk/branch-finder**

Cynhyrchion a Gwasanaethau

Byddai dewis tebyg o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd, ac eithrio'r Loteri Genedlaethol ac Yswiriant Teithio ar Gais.

Mannau Gwasanaeth

Byddai un man gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop.

Mynediad

Ar hyn o bryd mae yna ramp a drws llydan wrth y fynedfa i'r adeilad arfaethedig. Y tu mewn, byddai dolen glyw a lle ar gyfer cadair olwyn.

Cyrraedd yno

Byddai'r gangen newydd arfaethedig tua 650 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir amrywiol ei natur.

Byddai modd parcio wrth ymyl y ffordd y tu allan i'r gangen arfaethedig ac ar hyd Heol Clydach.

Manwerth

Siop gyfleustra.

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

Y gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost Clydach Vale		
I gael gwybod a yw cynnyrch ar gael, ffoniwch 03457 22 33 44.		
Mae manylion am werth uchaf trafodion ar gael gan y sawl sy'n rhedeg y Swyddfa Bost.		
	Y gangen gyfredol	Y gangen arfaethedig
Post		
Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth	✓	✓
Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig)	✓	✓
Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post	✓	✓
Signed For	✓	✓
Special Delivery	✓	✓
Dychweliadau siopa o gartref	✓	✓
Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr	✓	✓
Parseli Express a chontract	✓	Express 24 & 48
Post Lluoedd Prydain (BFPO)	✓	✓
Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Tracked a Signed)	✓	✓
Parseli rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg	✓	✓
Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol	✓	✘
Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol)	✓	✓
Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol	✓	✓
Local Collect	✓	✓
Drop & Go	✓	✓
Codi arian, adneuo a thaliadau		
Bancio personol a busnes: Codi arian, adneuo ac ymholiadau balans drwy defnyddio cerdyn. Hefyd, adneuo sieciau a slipiau adneuo â chod bar mewn amlenni.	✓	✓
Archebion Post	✓	✓
MoneyGram	✓	✓
Rhoi newid	✓	✓
Talu biliau (cerdyn neu god bar)	✓	✓
Adlenwi allweddi	✓	✓
Teithio		
Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw	✓	✓
Atgyfeirio Yswiriant Teithio	✓	✓
Yswiriant Teithio ar gais	✓	✘
Talu â siec		
Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau	✓	✓
Terfynell Loteri Cenedlaethol	✓	✘
Talu â siec	✓	✘
Mae'r cynhyrchion a nodwyd â ✘ ar gael yn Swyddfa Bost Tonypandy , 38-40 Stryd Dunraven, Tonypandy, CF40 1AL	Yr oriau agor: Llun – Iau 09:00 – 20:00 Llun – Sad 09:00 – 20:30 Sul 10:00 – 19:00	

Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilyniir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Ymgynghori** – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:

- Cau cangen Swyddfa'r Post¹ yn barhaol
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos² er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol³ Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol⁴ am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw i fwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r holl ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon; cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilyniwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw weithredu ynghylch y gŵyn).

¹ Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darpariaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

² Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

³ Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.

⁴ Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn ³ a ⁴ uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod â diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.